

## Arweiniad i Larwm Tai

**Os oes larwm gennych yn eich cartref, dylech ystyried cofrestru deiliad allwedd. Dylai'r person hwn fod yn gallu mynd i mewn i'ch tŷ o ddiffodd y larwm os yw'n canu a dydych chi ddim gartref.**

Fe gadwn ni'r manylion yma'n gyfrinachol, a byddwn ni di ond yn cysylltu â'ch deiliad neu ddeiliaid allwedd os oes cwyn wedi ei wneud am sŵn larwm yn eich tŷ.

Os caiff cwyn ei wneud a dydych chi ddim wedi cofrestru deiliad allwedd (neu os nad ydych chi'n gallu cysylltu â'ch deiliad), efallai bydd angen i inni fynd i mewn i'ch tŷ i roi taw ar y larwm. Gallai hyn olygu galw peiriannydd larwm a saer cloeon, o bosibl. Byddwn yn hawlio unrhyw gostau yn ôl gennych chi.

### Ymuno â Chofrestr deiliaid allweddi larymau

Llenwch ffurflen ar-lein neu ffonio i ni gael anfon ffurflen atoch chi. Rhwng enw dau ddeiliad allwedd a all fynd i mewn i'ch tŷ i ddiffodd y larwm os oes angen.

Dylai fod pob larwm yn torri allan ymhen ugain munud (drwy gyfraith). Os ydy'r larwm yn parhau'n ddi-dor ac yn cael ei ystyried yn niwsans, rydyn ni'n gwneud ein gorau i gysylltu â deiliad allwedd neu'r perchennog. Os nad ydy hyn yn bosibl, fodd bynnag, mi allwn gael gwarant.

Unwaith bydd hwn yn cael ei lofnodi gan Ynad Heddwch, gyda help saer cloeon, trydanwr a chynrychiolaeth gan yr heddlu, gallwn ni fynd i mewn i'r tŷ a diffodd y larwm.

Bydd y saer cloeon wedyn yn newid y cloeon, a gadael y tŷ yr un mor ddiogel ag o'r blaen. Bydd yr allweddi newydd yn cael eu cadw yn y swyddfa nes bod perchennog y tŷ yn dod i'w casglu nhw. Y perchennog fydd yn gyfrifol am holl gostau'r gweithredoedd.